***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 1478

# Gorchymyn Parth Arddangos Morlais 2021

## RHAN 3

### Caffael a Meddiannu Tir

*Pwerau caffael*

**Hawliau o dan neu dros strydoedd**

**27.**—(1) Caiff yr ymgymerwr fynd i mewn i unrhyw stryd o fewn terfynau'r Gorchymyn ar y tir a meddiannu cymaint o'i his-bridd neu'r gofod awyr drosti ag sy'n ofynnol at ddibenion y gweithfeydd awdurdodedig a chaiff ddefnyddio'r is-bridd neu'r gofod awyr at y dibenion hynny neu unrhyw ddiben arall sy'n ategol i'r gweithfeydd awdurdodedig.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), caiff y pŵer o dan baragraff (1) ei arfer mewn perthynas â stryd heb fod yn ofynnol i'r ymgymerwr gaffael unrhyw ran o'r stryd neu unrhyw hawddfraint neu hawl yn y stryd.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), mae gan unrhyw berson sy'n berchennog neu'n feddiannydd tir y mae'r pŵer i feddiannu a roddir gan baragraff (1) yn cael ei arfer yn ei gylch heb i'r ymgymerwr gaffael unrhyw ran o fuddiant y person hwnnw yn y tir, ac sy'n dioddef colled drwy arfer y pŵer hwnnw, yr hawl i gael digollediad sydd i'w benderfynu, yn achos anghydfod, o dan Ran 1 o Ddeddf 1961.

(4) Nid yw paragraff (2) yn gymwys mewn perthynas ag—

(a) unrhyw danffordd neu adeilad tanddaearol; neu

(b) unrhyw seler, daeargell, arch neu adeiledd arall mewn, ar neu o dan stryd sy'n rhan o ffryntiad adeilad ar y stryd.

(5) Nid yw digollediad yn daladwy o dan baragraff (3) i unrhyw berson sy'n ymgymerwr y mae adran 85 o Ddeddf 1991 yn gymwys iddo mewn perthynas â mesurau y bydd y costau a ganiateir ar eu cyfer yn cael eu dwyn yn unol â'r adran honno.